# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 3 a 10 Ebrill 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiwn i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

8 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiwn i'r Prif Weinidog

### Mesurau Osgoi Ymosodiad Terfysgol a Phrofi Gwasanaethau Hanfodol

**Alun Cairns:** Yng ngoleuni'r perygl diweddar y gallai fod cynnydd mewn ymosodiadau terfysgol, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau a gymerir i osgoi hyn ac i brofi gwasanaethau hanfodol megis dŵr a chyfleustodau? (WAQ23936)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae cwmnïau cyfleustodau wedi bod yn cymryd camau priodol yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol. Gan fod hwn yn fater diogelwch, nid wyf yn barod i sôn rhagor am y manylion.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Cynllun Tir Gofal

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd yn ariannu cynllun Tir Gofal o'r flwyddyn 2006 ymlaen? (WAQ23952) [W]

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gweledig a Chymru Dramor (Michael German):** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cynllun Casglu Anifeiliaid Trig

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau cyfreithiol y Cynulliad ar gyfer sefydlu cynllun casglu anifeiliaid trig, a pha gosbau ariannol a ddaw i'r Cynulliad o ganlyniad i fethu â sefydlu cynllun o'r fath erbyn mis Mai eleni? (WAQ23953) [W]

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Dewisiadau Amgen i Gladdu Anifeiliaid Marw

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ddewisiadau ymarferol a chyfreithlon eraill fydd i gladdu anifeiliaid a fu farw pan fydd yr arferiad hwn yn cael ei wahardd ddiwedd mis Ebrill? (WAQ23961)

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Adolygiad Canol Tymor y Polisi Amaethyddol Cyffredin

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ddadansoddiad manwl a wnaethpwyd o'r effaith ar yr economi wledig yng Nghymru o ganlyniad i'r cynlluniau i ddatgysylltu a geir yn adolygiad canol tymor y polisi amaethyddol cyffredin? (WAQ23962)

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Arolygon o Ffermydd Cymru

**Nick Bourne:** Pa arolygon a gynhaliwyd o ffermydd Cymru ers dechrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ23973)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw arolygon a gynhaliwyd o ffermydd Cymru ers dechrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan roi manylion am gontractwyr, costau contractau a chanfyddiadau unrhyw arolwg? (WAQ23974)

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cynllun Casglu Anifeiliaid Trig

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o gymorth ariannol fydd y Gweinidog yn ei gyflwyno ar gyfer cynllun casglu anifeiliaid trig? (WAQ23976) [W]

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cadw Ceffylau a Merlod ar Dir Comin

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa mor bwysig ar gyfer yr amgylchedd yw cadw ceffylau a merlod ar dir comin? (WAQ23978)

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Pasportau Cofrestru Ceffylau a Merlod

**Peter Rogers:** Pa effaith a gaiff unrhyw gostau y bydd yn rhaid i fridwyr ceffylau eu hysgwyddo o ganlyniad i'r pasport newydd ar gyfer ceffylau a merlod ar hyfywedd economaidd y broses o gadw ceffylau ar dir comin? (WAQ23979)

**Peter Rogers:** Pwy sy'n gyfrifol am gost y pasport cofrestru newydd ar gyfer ceffylau a merlod? (WAQ23980)

**Peter Rogers:** Pryd y daw'r ddeddfwriaeth newydd ar basportau ceffylau a merlod i rym a faint yw pris pasport o'r fath? (WAQ23981)

**Michael German:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Gwyliau a Noddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y gwariant gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar noddi gwyliau yn ystod 2001-02? (WAQ23982)

**Alison Halford:** Pa ganran o'r gwyliau a noddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru? (WAQ23983)

**Alison Halford:** Pa ganran o'r cyfanswm a wariwyd gan gyngor y celfyddydau ar wyliau yn ystod y llynedd a wariwyd ar wyliau yng ngogledd Cymru? (WAQ23984)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Arian Amcan 2 a 5b

**Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad cyn 1 Mai yn cadarnhau a gaiff arian Amcan 2 a 5b sy'n weddill o gylch blaenorol y cronfeydd strwythurol ei ddadneilltuo, a faint o arian a gaiff ei ddadneilltuo? (WAQ23930)

**Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar uchafswm yr arian Amcan 2 a 5b sy'n weddill (o raglenni blaenorol) a fydd yn cael ei wario pe bai'r holl geisiadau sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd yn llwyddiannus? (WAQ23931)

**Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian Amcan 2 a 5b sy'n weddill (o raglenni blaenorol) a fydd heb ei wario pe bai'r holl geisiadau a gyflwynwyd hyd yma'n llwyddiannus? (WAQ23932)

**Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i gynnig gwybodaeth, yn ystod mis Ebrill, am faint o arian Amcan 2 a 5b sy'n weddill (o raglenni blaenorol) a fydd heb ei wario ar 31 Mawrth 2003? (WAQ23933)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae rhaglen Amcan 2 i dde Cymru ddiwydiannol 1997-99 a rhaglen Amcan 5b i'r Gymru wledig 1994-99 wedi cau erbyn hyn ac mae'r adroddiadau terfynol wedi'u cyflwyno i Gomisiwn Ewrop. Er nad yw'r arian a oedd ar gael o dan y rhaglenni hyn wedi cael ei ddefnyddio i gyd, ni chollwyd unrhyw arian i Gymru ac ni fydd unrhyw effaith ar gyllidebau'r Cynulliad. Gellir defnyddio'r adnoddau a neilltuwyd ar gyfer gwariant ar y rhaglenni hyn ar gyllidebau eraill y Cynulliad.

Rhoddir crynodeb o'r sefyllfa derfynol o ran y gwariant ar y rhaglenni hyn, ynghyd â rhaglen Amcan 2 i dde Cymru ddiwydiannol 1994-96, isod:

| | **Gwerth y rhaglen** | **Grant a gymeradwywyd** | **Grant a dalwyd** |
|---|---|---|---|
| Cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop Amcan 2 de Cymru ddiwydiannol 1994-96 | 63.9 | 77.3 | 69.8 |
| Cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop Amcan 2 de Cymru ddiwydiannol 1997-99 | 126.9 | 115.3 | 101.1 |
| Cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop Amcan 5b y Gymru wledig 1994-99 | 74.1 | 77.4 | 71.2 |
| Cronfa cyfarwyddo a gwarantu amaethyddiaeth Ewrop Amcan 5b y Gymru wledig 1994-99 | 22.8 | 23.7 | 20.7 |

Mae gwerth y rhaglen yn dangos y ffigurau grant yn y ddogfen raglennu sengl berthnasol wedi'u trosi ar gyfradd gyfnewid o £1: €1.62. Cafodd elfennau cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a chronfa cyfarwyddo a gwarantu amaethyddiaeth Ewrop y rhaglenni eu gweinyddu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o fis Ebrill 2000 a, chyn hynny, gan weithrediaeth rhaglenni Ewropeaidd Cymru. O ran rhaglenni 1994-99, cafodd rhaglenni cronfa gymdeithasol Ewrop eu gweinyddu yng Nghymru gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

## Arian Amcan 1

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swm o arian Amcan 1 a ddyrannwyd ac a dalwyd i bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad hyd yn hyn, yn ogystal â'r rhagolygon o ran nifer y swyddi a'r swyddi a grëwyd mewn gwirionedd gan brosiectau a noddwyd ganddynt? (WAQ23963)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swm o arian Amcan 1 a ddyrannwyd ac a dalwyd i bob prifysgol yng Nghymru hyd yn hyn, yn ogystal â'r rhagolygon o ran nifer y swyddi a'r swyddi a grëwyd mewn gwirionedd o'r prosiectau a noddwyd ganddynt? (WAQ23964)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Rhaglenni Amcan 2 a 5b

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pa un a gafodd Cymru unrhyw arian ychwanegol gan Ewrop o ganlyniad i raglenni Amcan 2 a 5b cyn 1999? (WAQ23965)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## 'GwellCymru.com'

**Elin Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn monitro'r ymrwymiad a wnaed yn 'GwellCymru.com' i gynyddu nifer y cwmnïau allforio 10 y cant erbyn Mawrth 2003? (WAQ23966)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Arian Amcan 2 a 5b

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pa un a gafodd arian Amcan 2 a 5b ar gyfer Cymru rhwng 1994 ac 1999 ei wario o floc Cymru? (WAQ23967)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Anweithgarwch Economaidd Ymhlith Pobl 18 i 24 oed

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newidiadau yn lefel yr anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 18 i 24 oed ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu? (WAQ23968)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwymp Net mewn Cyflogaeth ym Maes Gweithgynhyrchu

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cwymp net o 41,000 mewn cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu rhwng Tachwedd 1999 a Tachwedd 2002, yn ôl ystadegau Nomis y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru? (WAQ23969)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cyflogau Perthynol (Cymru a'r DU)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y cyflogau perthynol rhwng Cymru a'r DU rhwng 1999 a 2002? (WAQ23970)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cwymp mewn Cyflogau Real yn Ne-orllewin Cymru

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cwymp mewn cyflogau real yn ne-orllewin Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ23971)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Ad-daliadau Cymorth Rhanbarthol Dewisol

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw daliadau cymorth rhanbarthol dewisol a ad-dalwyd i'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ23972)

**Andrew Davies:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Adeiladau Ysgolion yng Ngogledd Cymru

**David Ian Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda phrifathrawon ynghylch cyflwr adeiladau ysgolion yng ngogledd Cymru? (WAQ23937)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yn ystod yr ymweliadau lu ag ysgolion a wneuthum fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, bu cyflwr adeiladau ysgolion yn bwnc trafod mynych gyda llywodraethwyr a phrifathrawon.

### Arian i Wella Ysgolion (Sir Fynwy)

**David Davies:** Faint o'r £57 miliwn a gyhoeddwyd ar 19 Mawrth i wella ysgolion sydd wedi'i neilltuo i adran addysg Cyngor Sir Fynwy? (WAQ23948)

**Jane Davidson:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Arian i Leihau Maint Dosbarthiadau (Sir Fynwy)

**David Davies:** Faint o'r £32 miliwn a gyhoeddwyd ar 5 Mawrth i leihau maint dosbarthiadau sydd wedi'i neilltuo i adran addysg Cyngor Sir Fynwy? (WAQ23949)

**Jane Davidson:** O'r £32 miliwn a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 5 Mawrth i leihau maint dosbarthiadau iau, gwella'r lefelau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3 a chynorthwyo ysgolion sy'n tanberfformio, cafodd £825,474 ei neilltuo i Gyngor Sir Fynwy.

### Gwella Ysgolion a Lleihau Maint Dosbarthiadau

**David Davies:** Sut y mae'r £89 miliwn a gyhoeddwyd fis Mawrth i wella ysgolion a lleihau maint dosbarthiadau yn wahanol i'r arian a neilltuwyd i addysg cyn hynny? (WAQ23950)

**Jane Davidson:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cyfrwng Dysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i esbonio pam iddi benderfynu bod angen caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol ar ysgolion cyfun Bro Myrddin, y Strade a Maes yr Yrfa i newid cyfrwng dysgu mathemateg a gwyddoniaeth? (WAQ23951)

**Jane Davidson:** Tynnodd fy swyddogion sylw awdurdod addysg lleol Sir Gaerfyrddin at Reoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion statudol. Penderfyniad yr awdurdod oedd cyhoeddi'r cynigion. Gan i bobl wrthwynebu, bu raid i mi benderfynu pa un ai i gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig ai peidio.

### Ysgol Uwchradd Newydd (Safle Halogedig)

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafod a fu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch yr angen i gynnwys yn y broses rieni plant sy'n bwriadu mynychu ysgol uwchradd sy'n cael ei hadeiladu ar safle halogedig yn Llandudno? (WAQ23989) [R]

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafod a fu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch yr angen i gynnwys Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yn y prosiect i adeiladu ysgol uwchradd newydd ar safle halogedig yn Llandudno? (WAQ23990) [R]

**Jane Davidson:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Gorlifo o'r Rheidol ar yr A44

**Nick Bourne:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r bygythiad o ran gorlifo o afon Rheidol ar ffordd yr A44 yn Lovesgrove? (WAQ23946)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Fel rhan o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd mewn perthynas â chynllun cylchfan yr A44 ar gyffordd Lovesgrove, gwnaed asesiad cam 1 o'r effaith ar yr amgylchedd. Ni chanfu'r asesiad bryder ynglŷn â bygythiad y byddai'r afon yn gorlifo ar gefnffordd yr A44 yn Lovesgrove. Ar sail y cyngor hwn, nid oes asesiad pellach wedi'i wneud. Mae'r afon rhyw 250m neu fwy o ffin ddeheuol yr A44 ar gyffordd Lovesgrove. Rhwng Lovesgrove a Llanbadarn Fawr, mae'r afon yn agos at y gefnffordd mewn un man. Yn y gorffennol, nid yw'r ffordd erioed wedi bod o dan fygythiad, ond caiff y safle ei fonitro gan Asiantaeth Gefnffyrdd Gorllewin Cymru ar ôl llifogydd mawr.

### Prisiau Consesiwn ar Wasanaethau Bws

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion yr amserlen a'r broses ar gyfer penodi ymgynghorwyr i adolygu prisiau consesiwn ar wasanaethau bws yng Nghymru? (WAQ23947)

**Sue Essex:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Cwmnïau Ailgylchu Cerbydau Bach

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y costau sy'n wynebu cwmnïau ailgylchu cerbydau bach o ran bodloni telerau ac amodau'r drwydded y mae'n rhaid wrthi i weithredu? (WAQ23977)

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gweithdrefnau gweinyddol sy'n ddisgwyliedig gan gwmnïau ailgylchu cerbydau bach o ran bodloni telerau ac amodau'r drwydded y mae'n rhaid wrthi i weithredu? (WAQ23987) [R]

**Sue Essex:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Ysgol Uwchradd Newydd yn Llandudno (Safle Halogedig)

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafod a fu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch yr angen i godi safonau adfer y safle halogedig ar gyfer ysgol uwchradd newydd yn Llandudno? (WAQ23988) [R]

**Sue Essex:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Swyddogaeth Awdurdodau Heddlu Cymru

**Alison Halford:** Pa drafod a fu rhwng y Gweinidog a Llywodraeth y DU ynghylch swyddogaeth awdurdodau heddlu Cymru? (WAQ23985)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Y Cynllun 'Staywarm'

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pam nad yw defnyddwyr nwy petrolewm hylif wedi'u cynnwys yn y cynllun 'Staywarm'? (WAQ23991) [R]

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pam nad yw defnyddwyr glo wedi'u cynnwys yn y cynllun 'Staywarm'? (WAQ23992) [R]

**Edwina Hart:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Arian Cymunedau yn Gyntaf yng Ngogledd Cymru

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr heddweision ychwanegol y rhagwelir y cânt eu cyflogi yng ngogledd Cymru o ganlyniad i'r cyhoeddiad y bydd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng ngogledd Cymru yn derbyn £277,500? (WAQ23993) [R]

**Edwina Hart:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

### Y Cynllun Cymorth Prynu

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i gynyddu'r terfynau ar y grantiau cymorth ariannol sydd ar gael o dan y cynllun cymorth prynu, a hynny yng nghyd-destun y cynnydd sydyn ym mhrisiau tai yng ngogledd Cymru yn ddiweddar ? (WAQ23994) [R]

**Edwina Hart:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ymgynghorydd Cardioleg Penodedig yn Ysbyty Bronglais

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu ymgynghorydd cardioleg penodedig yn Ysbyty Bronglais yn unol â fframwaith strategol cenedlaethol ar glefyd coronaidd y galon? (WAQ23919) [W]

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cyfarfu aelodau rhwydwaith cardiaidd canolbarth a de-orllewin Cymru â chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ar 25 Chwefror i drafod yr achos busnes y mae'r ymddiriedolaeth yn ei ddatblygu ar hyn o bryd i sicrhau y bydd mewnbwn cardioleg priodol yn Ysbyty Bronglais.

### Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin a Ffurfiwyd yn Ddiweddar

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gyfran o'r fframwaith gwasanaethau ac arian, a diffygion gweithredol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys gaiff ei hetifeddu gan Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin a ffurfiwyd yn ddiweddar? (WAQ23939)

**Jane Hutt:** Achoswyd diffyg o £14.462 miliwn gan Awdurdod Iechyd Dyfed Powys yn 2002-03. Cyfran Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin o'r swm hwn yw tua £0.5 miliwn. Nid yw'r swm y bydd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin yn ei etifeddu o ddiffyg yr awdurdod iechyd o £4.7 miliwn wedi'i bennu eto. Mae hyn yn rhan o drafodaethau'r fframwaith gwasanaethau ac arian 2003-04, sy'n dal i fynd rhagddynt. Bydd y £31 miliwn ychwanegol a gyhoeddais ar gyfer y byrddau iechyd lleol yn effeithio'n sylweddol ar sefyllfa Sir Gaerfyrddin.

### Proffwydo Diffygion Awdurdodau Iechyd

**David Lloyd:** Beth yw'r diffygion a broffwydir y bydd gan bob awdurdod iechyd yng Nghymru ar gyfer 2002-03? (WAQ23940) [R]

**Jane Hutt:** Mae'r diffygion a broffwydir, ar sail y wybodaeth hyd at ddiwedd Chwefror, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Awdurdod Iechyd Bro Taf | £10.588 miliwn |
| Awdurdod Iechyd Gwent | £5.031 miliwn |
| Awdurdod Iechyd Dyfed Powys | £5.814 miliwn |
| Awdurdod Iechyd Morgannwg | £2.208 miliwn |
| Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru | £3.318 miliwn |

### Ariannu Gofal Hirdymor i Bobl Hŷn ac Anabl

**David Lloyd:** Pa argymhellion a wnaed i adolygu ac egluro'r canllawiau a roddwyd tuag at ariannu gofal hirdymor i bobl hŷn a phobl anabl? (WAQ23941) [R]

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r canllawiau sy'n ymdrin â gofal iechyd parhaus o fewn y GIG. Mae'n bwriadu cyhoeddi'r canllawiau hyn yn y misoedd nesaf.

Wedi hynny, bydd yn gweithio gyda'r byrddau iechyd lleol i ddatblygu fframwaith ar gyfer Cymru gyfan o ran ymdrin â pholisi ac arferion ym maes gofal iechyd parhaus o fewn y GIG.

### Ariannu Gofal Hirdymor i Bobl Hŷn ac Anabl

**David Lloyd:** Pa gyngor a roddwyd i awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru i adolygu'r meini prawf ar gyfer ariannu gofal hirdymor i bobl hŷn a phobl anabl? (WAQ23942) [R]

**Jane Hutt:** Awdurdodau iechyd sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf ar ariannu gofal hirdymor i bobl hŷn a phobl anabl, yng nghyd-destun y canllawiau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cyngor ffurfiol, ond mae awdurdodau iechyd (a byrddau iechyd lleol erbyn hyn) yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod eu meini prawf yn cydymffurfio â'r sefyllfa gyfreithiol bresennol. Mae fforwm gofal parhaus Cymru gyfan, sy'n cynnwys staff awdurdodau iechyd a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi cwrdd yn rheolaidd i ddatblygu polisïau ac arferion blaengar mewn perthynas â gofal iechyd parhaus o fewn y GIG.

### Talu am Ofal Mewn Cartrefi Gofal

**David Lloyd:** Pa ganllawiau a roddwyd i gyrff yn y gwasanaethau iechyd mewn perthynas â chanfod unrhyw gleifion y gorfodwyd iddynt dalu am ofal mewn cartrefi gofal, a hynny'n ddianghenraid, ac i roi iawndal priodol iddynt hwy neu i'w hystadau? (WAQ23943) [R]

**Jane Hutt:** Paratoir cyngor ffurfiol ar hyn o bryd ar gyfer cyrff gwasanaeth iechyd. Mae awdurdodau iechyd wedi bod yn ymateb i bob cais am wybodaeth oddi wrth unigolion ynglŷn â'r posibilrwydd iddynt dalu am eu gofal heb orfod; byrddau iechyd lleol fydd yn gwneud hyn o 1 Ebrill. Caiff gwybodaeth ei rhoi iddynt ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer gofal iechyd parhaus o fewn y GIG, a chynigir ymchwiliadau neu asesiad pellach lle bo hynny'n briodol.

### Dyrannu Diffygion Awdurdodau Iechyd

**David Lloyd:** Mewn perthynas â diddymu awdurdodau iechyd, pa sefydliadau gwasanaeth iechyd fydd yn cael cyfran o'r diffygion a achoswyd gan yr awdurdodau iechyd? (WAQ23944)

**Jane Hutt:** Disgwylir i bob un o'r pump awdurdod iechyd fod â diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2003, a rhagwelir mai £54.97 miliwn fydd y cyfanswm ar draws Cymru. O'r diffyg cronnus hwn, yr oedd £51.71 miliwn yn bodoli ar 1 Ebrill 2002. Mae awdurdodau iechyd wedi darogan diffyg gweithredu o £26.96 miliwn yn 2002-03, a gaiff ei ostwng i ddiffyg a ddatgenir o £3.26 miliwn yn sgîl canslo'r benthyciad o £23.7 miliwn i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, a gyhoeddais fis Ionawr diwethaf.

Caiff diffyg cronnus terfynol awdurdodau iechyd Cymru ei bennu yn ystod y broses o baratoi cyfrifon yr awdurdodau iechyd ar gyfer 2002-03. Mae'r cyfrifon terfynol, wedi'u harchwilio, i fod i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2003. Penderfynir ar sut i ddyrannu diffygion cau yr awdurdodau iechyd i fyrddau iechyd sy'n eu holynu fel rhan o'r broses o gau'r cyfrifon. Rhoddir gwybod am unrhyw ddiffygion sy'n debygol o godi yn 2003-04 drwy'r broses fframwaith gwasanaethau ac arian sydd ar y gweill.

### Fformiwla Townsend (Gweithredu)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r dyddiad cychwyn ar gyfer gweithredu fformiwla Townsend? (WAQ23954)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Fformiwla Townsend**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r swm o arian a fydd ar gael i bob bwrdd iechyd lleol a fydd ar eu hennill o dan fformiwla Townsend, pe bai'r fformiwla yn cael ei chyflwyno'n llawn ar unwaith? (WAQ23955)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Fformiwla Townsend**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r swm o arian ychwanegol y bydd pob un o ardaloedd y byrddau iechyd lleol yn ei gael fel rhan o'u cyfran o arian Townsend yn 2003-04? (WAQ23956)

**Lynne Neagle:** Pryd y bydd fformiwla Townsend yn cael ei gweithredu'n llawn? (WAQ23957)

**Lynne Neagle:** Pa mor bell yw pob un o ardaloedd y byrddau iechyd lleol o'r targed, ar sail y dyraniadau tybiedig a wneir pan fydd fformiwla Townsend yn cael ei gweithredu'n llawn? (WAQ23958)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Arian Ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol**

**Lynne Neagle:** Beth yw'r dadansoddiad o'r arian ychwanegol sydd yn awr ar gael i bob bwrdd iechyd lleol yn dilyn y penderfyniad i leihau effaith y diffyg a etifeddwyd gan yr awdurdodau iechyd blaenorol? (WAQ23959)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Dileu Dyled Awdurdodau Iechyd**

**Lynne Neagle:** Dros y 10 mlynedd diwethaf, faint o ddyled y mae'r Swyddfa Gymreig flaenorol neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddileu ar gyfer pob awdurdod iechyd, a beth yw'r swm fesul blwyddyn ar gyfer pob awdurdod iechyd? (WAQ23960)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Arian i Feddygon Teulu Helpu Pobl Epileptig**

**Nick Bourne:** All y Gweinidog roi manylion yr arian sydd ar gael i feddygon teulu er mwyn helpu pobl sy'n epileptig? (WAQ23975)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Ariannu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i egluro pam nad yw argymhellion adroddiad Operational Research in Health Ltd i ariannu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ymhellach wedi'u rhoi ar waith? (WAQ23986)

**Jane Hutt:** Ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani am na fyddai'n briodol i Weinidogion ateb cwestiynau'r Cynulliad yn ystod cyfnod yr etholiad.